## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 1 (CYLCHFAN KINGSLAND), CAERGYBI, YNYS MÔN I FAN I'R DWYRAIN O GYFFORDD 11 (CYFNEWIDFA LLYS Y GWYNT), BANGOR, GWYNEDD) (CYFYNGIADAU A GWAHARDDIAD TRAFFIG DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi, Ynys Môn a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd. Mae hefyd yn ofynnol, fel mesur wrth gefn, i ddiogelu defnyddwyr y ffordd ar yr A55 yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion ar Bont Britannia.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfynau cyflymder o 30 mya, 40 mya a/neu 50 mya ar y darnau o brif gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin a ffyrdd ymuno ac ymadael yr A55 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Kingsland, Caergybi, Ynys Môn hyd at bwynt 800 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd;

ii, gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r A55 a ddisgrifir uchod. Mae'r ddarpariaeth hon wedi ei chynnwys rhag ofn y bydd digwyddiadau nad oedd modd eu rhag-weld. Disgwylir y bydd y cyfnodau hynny pan fydd y ffordd ar gau ond yn para am gyfnodau byr a gosodir arwyddion traffig ymlaen llaw, pan fo'n bosibl. Ni fydd angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 26 Rhagfyr 2021. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn weithredol, fel sy'n ofynnol a phan godir arwyddion yn eu cylch, o 00:01 o'r gloch ar 26 Rhagfyr 2021 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 1 (KINGSLAND ROUNDABOUT), HOLYHEAD, ANGLESEY TO EAST OF JUNCTION 11 (LLYS Y GWYNT INTERCHANGE), BANGOR, GWYNEDD) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTIONS & PROHIBITION) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is required to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 1 (Kingsland Roundabout), Holyhead, Anglesey and Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd. It is also required, as a contingency, to safeguard road users on the A55 during periods of high winds on the Britannia Bridge.

The effect of the Order is to temporarily:

i. impose 30 mph, 40 mph and/or 50 mph speed limits on the lengths of the main eastbound and westbound carriageways and slip roads of the A55 that extend from its junction with Kingsland Roundabout, Holyhead, Anglesey to a point 800 metres east of the centre-point of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd;

ii. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the A55 described above. This provision is included as a contingency against unforeseen events. Any such closures are only expected to be for short periods of time and, whenever possible, will be indicated by advance traffic signs. No diversionary routes will be necessary.

The Order comes into force on 26 December 2021. The temporary restrictions and prohibition are expected to operate, as required and when indicated by traffic signs, from 00:01 hours on 26 December 2021 for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government